# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 20 Mehefin 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(73)

**Ethol Dirprwy Lywydd dros dro**

Cafodd Rhodri Glyn Thomas ei ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro.

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30.

Gofynnwyd cwestiynau 2 – 5 ac 7 – 14. Ni ofynnwyd cwestiwn 1. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl.

### 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.23.

Gofynnwyd y cwestiwn.

**Cwestiwn Brys**

Dechreuodd yr eitem am 14.29.

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog eluro ar frys beth yw ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddenu Taflegrau Niwclear Trident i Aberdaugleddau?

### 3. Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Biliau Preifat a Gwelliannau Amrywiol

Dechreuodd yr eitem am 14.34.

**NDM5014 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygiadau Arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog: Biliau Preifat a Newidiadau Amrywiol' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2012; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu'r Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiadau B a D i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**4. Dadl ar Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru**

Dechreuodd yr eitem am 14.34.

**NDM5013 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol: Darpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru, a gafodd ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ebrill 2012.

Sylwer: Cafodd ymateb y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 15.25.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5015 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau trafnidiaeth ar gyfer twf economaidd yng Nghymru;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol, ASau Cymru a'r Adran Drafnidiaeth i drydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western i Abertawe a thrydaneiddio rheilffyrdd cymoedd De Cymru;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu strategaeth integredig i gysylltu De a Gorllewin Cymru i'r brif reilffordd wedi'i thrydaneiddio; a

4. Yn gresynu bod Llywodraethau olynol yng Nghymru o dan arweiniad Llafur wedi methu â chysylltu cymunedau ar draws Cymru drwy rwydwaith trafnidiaeth integredig.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 34 | 45 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt 2 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn gresynu nad oedd gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU unrhyw gynlluniau i drydaneiddio Rheilffordd y Cymoedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 23 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

'Yn nodi nad yw'r gwariant ar seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli ac mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw, a bod gwariant Network Rail wedi'i ddatganoli i Lywodraeth yr Alban yn 2006.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddechrau pwynt 2:

'Yn nodi na wnaeth Llywodraeth Lafur flaenorol y DU drydaneiddio'r un filltir o Brif Lein y Great Western ac'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 23 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 2, dylid dileu 'ASau Cymru' a rhoi 'ASau' yn ei le.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 11 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio datganoli cyllideb Network Rail a'r holl gyfrifoldebau eraill yn ymwneud â seilwaith rheilffyrdd.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 11 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt 4 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganfod pa mor ymarferol yw cyflwyno cerdyn Oyster ar gyfer Cymru gyfan, gan weithio gyda chwmnïau trên a chwmnïau bysiau i sicrhau bod pobl yn gallu teithio o amgylch Cymru yn rhwydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 4, dileu popeth cyn 'cymunedau' a rhoi 'Yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru'n Un a'r Llywodraeth Lafur bresennol i gysylltu' yn ei le

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 15 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 4, dileu: 'Yn gresynu bod Llywodraethau olynol yng Nghymru o dan arweiniad Llafur' a rhoi yn ei le:

'Yn gresynu bod Llywodraethau olynol yn y DU o dan arweiniad Llafur a'r Ceidwadwyr'

**Gan fod gwelliant 7 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 8 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 9 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Gogledd Cymru yn gallu manteisio ar HS2, ac i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau yn cael effaith anffafriol ar wasanaethau prif lein West Coast i Gaergybi.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 1 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi'r ddadl dros ailagor gorsafoedd yn Bow Street ac yng Ngharno.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 23 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 10.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5015 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau trafnidiaeth ar gyfer twf economaidd yng Nghymru;

2. Yn nodi nad yw'r gwariant ar seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli ac mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw, a bod gwariant Network Rail wedi'i ddatganoli i Lywodraeth yr Alban yn 2006;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio datganoli cyllideb Network Rail a'r holl gyfrifoldebau eraill yn ymwneud â seilwaith rheilffyrdd;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganfod pa mor ymarferol yw cyflwyno cerdyn Oyster ar gyfer Cymru gyfan, gan weithio gyda chwmnïau trên a chwmnïau bysiau i sicrhau bod pobl yn gallu teithio o amgylch Cymru yn rhwydd;

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol, ASau a'r Adran Drafnidiaeth i drydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western i Abertawe a thrydaneiddio rheilffyrdd cymoedd De Cymru;

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu strategaeth integredig i gysylltu De a Gorllewin Cymru i'r brif reilffordd wedi'i thrydaneiddio;

7. Yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru'n Un a'r Llywodraeth Lafur bresennol i gysylltu cymunedau ar draws Cymru drwy rwydwaith trafnidiaeth integredig; ac

8. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Gogledd Cymru yn gallu manteisio ar HS2, ac i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau yn cael effaith anffafriol ar wasanaethau prif lein West Coast i Gaergybi.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 15 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.28.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5016 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu:

a) nad oes lle i fod yn hunanfodlon yng nghyswllt cyflenwi gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ar draws Cymru;

b) mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddal Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif drwy fecanwaith ystyrlon ar gyfer monitro ansawdd gofal mamolaeth a newyddenedigol ar draws Cymru;

c) bod Cymru yn wynebu sialensiau newydd a bod cyd-destun cymdeithasol ac economaidd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn newid yn gyson;

d) y dylai pob menyw yng Nghymru, ni waeth ble mae hi'n byw ac ni waeth beth yw ei chefndir cymdeithasol neu ei hethnigrwydd, allu cael gafael ar a derbyn gofal mamolaeth a newyddenedigol diogel o ansawdd uchel;

e) na fu gwelliant sylweddol mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol er 1999; a

f) bod yr ystadegau cyfredol ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol a mamolaeth yn annerbyniol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ddarparu arweinyddiaeth strategol a chryf i Fyrddau Iechyd Lleol ledled Cymru i sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn gwella;

b) sicrhau bod unrhyw adolygiad o wasanaethau newyddenedigol a wneir gan Fyrddau Iechyd Lleol yn cael ei gymeradwyo gan y Rhwydwaith Newyddenedigol i sicrhau nad yw unrhyw gynigion yn peryglu darparu gwasanaeth Cymru gyfan cynhwysfawr; ac

c) sicrhau bod unrhyw adolygiad o wasanaethau mamolaeth a wneir gan Fyrddau Iechyd Lleol yn cael ei gymeradwyo gan Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan i sicrhau nad yw unrhyw gynigion yn peryglu darparu gwasanaeth Cymru gyfan cynhwysfawr.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 0 | 41 | 45 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu is-bwyntiau 1e ac 1f.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 7 | 15 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

cynllunio'r gweithlu yn yr hirdymor er mwyn sicrhau bod digon o staff arbenigol ar gael ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol ledled y wlad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi toriadau Llywodraeth Cymru i gyllideb y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a oedd yn fwy nag erioed o'r blaen, a bod modd i'r rhain beryglu unrhyw ymdrechion i wella gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ledled Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 33 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5016 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu:

a) nad oes lle i fod yn hunanfodlon yng nghyswllt cyflenwi gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ar draws Cymru;

b) mai Llywodraeth Cymru sy’n gyfrifol am ddal Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif drwy fecanwaith ystyrlon ar gyfer monitro ansawdd gofal mamolaeth a newyddenedigol ar draws Cymru;

c) bod Cymru yn wynebu sialensiau newydd a bod cyd-destun cymdeithasol ac economaidd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn newid yn gyson; a

d) y dylai pob menyw yng Nghymru, ni waeth ble mae hi'n byw ac ni waeth beth yw ei chefndir cymdeithasol neu ei hethnigrwydd, allu cael gafael ar a derbyn gofal mamolaeth a newyddenedigol diogel o ansawdd uchel.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ddarparu arweinyddiaeth strategol a chryf i Fyrddau Iechyd Lleol ledled Cymru i sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn gwella;

b) sicrhau bod unrhyw adolygiad o wasanaethau newyddenedigol a wneir gan Fyrddau Iechyd Lleol yn cael ei gymeradwyo gan y Rhwydwaith Newyddenedigol i sicrhau nad yw unrhyw gynigion yn peryglu darparu gwasanaeth Cymru gyfan cynhwysfawr;

c) sicrhau bod unrhyw adolygiad o wasanaethau mamolaeth a wneir gan Fyrddau Iechyd Lleol yn cael ei gymeradwyo gan Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan i sicrhau nad yw unrhyw gynigion yn peryglu darparu gwasanaeth Cymru gyfan cynhwysfawr; a

d) cynllunio’r gweithlu yn yr hirdymor er mwyn sicrhau bod digon o staff arbenigol ar gael ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol ledled y wlad.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.22.

**7. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17.31.

**NDM5017 Lynne Neagle (Tor-faen):**

Effaith diwygio lles ar iechyd meddwl a lles yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:53.

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 26 Mehefin 2012**